Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

# Gweithdrefn Dalu Aelodau Annibynnol

**Ar gyfer Aelodau Panel Ymgynghorol a Phwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yr OGCC**

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Gymraeg.

This document is also available in Welsh.

## Cynnwys


1. **Diben** .... 3
2. **Taliad Cydnabyddiaeth** .... 3
3. **Hawliadau Teithio a Chynhaliaeth** .... 3
   - **Llety Dros Nos** .... 3
   - **Cerbydau Preifat** .... 4
   - **Cludiant Cyhoeddus** .... 4
   - **Costau Tacsi** .... 5
   - **Costau Eraill** .... 5
4. **Treth ac Yswiriant Gwladol** .... 5
5. **Monitro, adolygu a chyhoeddi** .... 5
   - **Atodiad A** .... 6
   - **Atodiad B** .... 7

## 1. Diben

1.1 Mae’r weithdrefn hon yn nodi’r broses i’w dilyn gan hawlwyr wrth gyflwyno hawliadau am daliadau am gyflawni eu dyletswyddau fel Aelodau Annibynnol o Banel Ymgynghorol (AP) a/neu Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) yr Ombwdsmon (y cyfeirir atynt fel Aelodau at ddibenion y weithdrefn hon).

## 2. Taliad Cydnabyddiaeth

2.1 Rhaid i Aelodau Newydd lenwi'r Ffurflen Cychwyn Newydd (a ddarperir gan AD wrth ymuno) a'i chyflwyno i'r Gwasanaethau Corfforaethol cyn y gellir rhoi taliad.

2.2 Bydd aelodau'n cael eu talu ar sail y gyfradd gytunedig sydd ar waith bryd hynny (gweler Atodiad B) a nifer y diwrnodau i'w talu.

2.3 Bydd aelodau'n derbyn tâl yn unol ag Atodiad B am fynychu sesiynau hyfforddi neu weithdai ar ddiwrnodau nad ydynt yn mynychu cyfarfod OGCC.

2.4 Bydd Cynorthwyydd Gweithredol yr Ombwdsmon yn dweud wrth AD am nifer y diwrnodau sydd i’w talu i bob aelod, am bob cyfnod misol.

2.5 Bydd unrhyw gais am daliad cydnabyddiaeth a dderbynnir gan AD ar ôl y 10fed diwrnod o'r mis, yn cael ei dalu yn ystod y mis canlynol oni hysbysir yn wahanol.

2.6 Mae taliadau cyflogres yn cael eu prosesu i sicrhau eu bod yn cyrraedd cyfrifon banc y derbynwyr ar neu cyn diwrnod gwaith olaf pob mis.

## 3. Hawliadau Teithio a Chynhaliaeth

### Llety Dros Nos

3.1 Bydd Gwasanaethau Corfforaethol yn trefnu llety (a brecwast a phryd nos os oes angen) ar gyfer Aelodau sydd angen llety dros nos oherwydd busnes sy’n gysylltiedig â’r Ombwdsmon.  Bydd Gwasanaethau Corfforaethol yn dewis y gwesty mwyaf priodol yn seiliedig ar yr ardal dan sylw, cyfleuster, cymariaethau prisiau a chostau teithio, gan ddefnyddio’r gyfradd a negodwyd gyda’r llywodraeth, pan fydd hynny’n bosibl.

3.2 Pan fydd aelodau yn aros dros nos, gallant hefyd hawlio lwfans atodol personol o £5 i dalu am eitemau amrywiol fel papur newydd neu alwadau ffôn. Nid oes angen derbynebau ar gyfer hyn.

3.3 Gall aelodau hawlio ad-daliadau am wariant gwirioneddol angenrheidiol ar brydau bwyd hyd at £30 y dydd oni bai bod Gwasanaethau Corfforaethol eisoes wedi trefnu a thalu amdanynt. Dylid darparu derbynebau. Gellir ystyried ad-daliadau am hawliadau heb dderbynebau dilys a/neu hawliadau sy'n fwy na'r uchafswm mewn amgylchiadau eithriadol.

3.4 Ni thelir unrhyw ad-daliadau am ddiodydd alcoholaidd.

**Cerbydau Preifat**

3.5 Os defnyddir cerbyd preifat (car, fan, beic modur neu feic) ar gyfer teithio swyddogol, ad-delir y costau drwy dalu lwfans milltiroedd modur ar y gyfradd briodol fesul milltir (Atodiad A).

3.6 Bydd OGCC yn talu swm ychwanegol o 5c y filltir i unrhyw Aelod sy'n cludo teithwyr swyddogol yn eu cerbyd. Gellir hawlio 5c y filltir waeth faint o bobl sy’n cael eu cludo.

3.7 Dylai aelodau sicrhau bod ganddynt yswiriant busnes ar eu hyswiriant eu hunain os ydynt yn defnyddio eu cerbyd eu hunain.

**Cludiant Cyhoeddus**

3.8 Bydd y swyddfa yn talu neu’n ad-dalu costau tocynnau trên, awyr, bws a choets wrth deithio ar fusnes swyddogol, yn cynnwys cost archebu sedd pan fydd angen. Bydd cost unrhyw atchwanegiadau angenrheidiol hefyd yn cael eu had-dalu, e.e. uwchraddio tocyn Saver/Supersaver i docyn dwyffordd diwrnod rhad, safonol.

3.9 Dylid prynu tocyn trên dosbarth cyffredin bob amser.

3.10 Os oes angen teithio awyr, dylid prynu ticed dosbarth Economi lle bynnag y bo modd.

### Costau Tacsi

3.11 Gellir defnyddio tacsi ar gyfer teithio swyddogol pan fydd hynny'n briodol. Dylid ond eu defnyddio pan nad oes dewis arall ar gael, neu pan fydd y canlynol yn berthnasol:

- Ceir arbediad sylweddol i amser swyddogol
- Pan fydd angen cludo bagiau trwm a / neu offer;
- Lle mae aelodau'n teithio gyda'i gilydd ac mae'n opsiwn rhatach.

3.12 Rhaid cyflwyno derbynneb sy'n dangos manylion y daith a dylid ei hatodi i'r ffurflen hawlio.

### Costau Eraill

3.13 Bydd ffioedd parcio a thollau pontydd yn cael eu had-dalu gyda derbynebau ategol.

3.14 Ni fydd y swyddfa'n talu cosbau ariannol am droseddau modur, yn cynnwys tocynnau parcio.

## 4. Treth ac Yswiriant Gwladol

4.1 Bydd OGCC yn talu'r ffioedd y cytunwyd arnynt pan fydd Aelodau yn mynychu cyfarfodydd. Gwneir taliadau trwy'r gyflogres gan dynnu treth ac yswiriant gwladol fel y bo'n briodol.

## 5. Monitro, adolygu a chyhoeddi

5.1 Caiff y Polisi hwn ei adolygu pob 3 mlynedd a'i gyhoeddi'n fewnol ac yn allanol.

5.2 Gellir anfon unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon at rheolipolisi@ombwdsmon.cymru

# Atodiad A

## Lwfansau milltiroedd

Cerbydau eich hun: taliadau milltiredd ar gyfer teithio busnes

| Math o gerbyd | Cyfradd fesul milltir busnes |
|---|---|
| **Car** | 45c am y 150 milltir gyntaf fesul taith gyfan ond hyd at uchafswm o 10,000 milltir busnes mewn blwyddyn dreth.<br><br>25c am bob milltir wedi hynny dros 150 milltir mewn taith gyfan, neu unrhyw filltiroedd mwy na 10,000 milltir busnes mewn blwyddyn dreth.<br><br>5c y filltir ychwanegol os yn cludo teithiwr(teithwyr) swyddogol (e.e. aelod arall/aelodau eraill o'r Panel/Pwyllgor). |
| **Beic modur** | 24c am bob milltir busnes |
| **Beic** | 20c am bob milltir busnes |

**Atodiad B**

## Cyfraddau talu Aelodau Annibynnol

(Wedi'i ddiweddaru Gorffennaf 2024)

**Cyfradd dydd (ar gyfer mynychu naill ai ARAC neu AP a sesiwn hyfforddi ar yr un diwrnod, os yn berthnasol):**

| | ARAC/AP yn unig | ARAC/AP a hyfforddiant |
|---|---|---|
| Cadeirydd ARAC neu AP: | £400* | £500 |
| Aelod o ARAC neu AP: | £300* | £400 |

* Telir am weithgareddau ad hoc ar y cyfraddau diwrnod neu hanner diwrnod uchod (hyd at 4 awr).

**Cyfradd dydd pan fydd ARAC neu AP ar yr un dydd ac mae'r aelod yn mynychu'r ddau:**

| | |
|---|---|
| Cadeirydd ARAC neu AP: | £500 |
| Aelod o'r ddau: | £400 |

**Cyfraddau hyfforddi, datblygu neu weithdŷ ar gyfer Cadeiryddion/aelodau (h.y. pan fo aelodau yn bresennol ar gyfer hyfforddiant yn unig ac nad ydynt yn mynychu cyfarfod ar y diwrnod hwnnw):**

| | |
|---|---|
| Cyfradd hyfforddi/gweithdy hanner diwrnod: | £200 |
| Cyfradd hyfforddi/gweithdy diwrnod llawn: | £300 |